# POLISI MYNEDIAD
# PONTIO A CHYSWLLT CYNRADD/UWCHRADD Y STRADE

## Cyflwyniad

Ein prif nod yw sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i Ysgol Y Strade yn hapus ac yn llwyddiannus gan ymgartrefu'n hwylus ym Ml 7 o'r dechrau, er mwyn iddynt allu ymateb yn llawn i'r profiadau addysgol a chymdeithasol a gynigir iddynt. Pwrpas y polisi pontio yw amlinellu egwyddorion a threfniadau a gynllunir ac a weithredir ar y cyd gyda'r ysgolion cynradd i wireddu'r nod hwn yn effeithiol. Golyga hyn ein bod yn cynllunio i sicrhau dilyniant a pharhad o ran y cwricwlwm, sgiliau a safonau ac hefyd yn y gofal lles a roddir i'r disgyblion.

## Amcanion

- Adnabod y disgyblion yn dda ym mlwyddyn 6 cyn iddynt gyrraedd Ysgol Strade.
- Rhoi cyfle i'r disgyblion a'u rhieni ddod i adnabod yr ysgol uwchradd a chyfarwyddo â'i pholisïau,
- Ceisio sicrhau cyd-ddealltwriaeth ynglyn â disgwyliadau a safonau'r ysgol uwchradd a'r bartneriaeth cartref-ysgol mae'r ysgol uwchradd am ei ffurfio gyda'r rhieni er lles cynnydd a llwyddiant pob disgybl.
- Rhoi cyfle i'r disgyblion a'u rhieni gyfarfod â'r athro dosbarth a'r Pennaeth Blwyddyn a staff perthnasol eraill cyn i'r disgybl ddechrau yn Ysgol Y Strade.
- Esbonio pwysigrwydd y Llyfr Cyswllt fel dolen gyswllt rhwng yr ysgol a'r rhieni a chyfeirio at y Cytundeb Cartref-Ysgol.
- Sicrhau cysylltiad agos rhwng athrawon yr ysgolion cynradd ac athrawon Ysgol Y Strade.
- Adnabod unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y disgyblion ac hefyd adnabod disgyblion abl a dawnus, er mwyn sicrhau bod darpariaeth addas yn cael ei pharatoi ar eu cyfer yn Ysgol Y Strade, yn unol â gofynion y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.
- Adnabod unrhyw broblemau ymddygiad/emosiynol sydd gan y disgyblion.

## Cyswllt Cynradd/Uwchradd

Mae perthynas agos iawn yn bodoli rhwng Ysgol Y Strade a'r ysgolion cynradd y Teulu sef Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Ysgol Iau Llangennech, Ysgol Ffwrnes, Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Ysgol Y Felin, Ysgol Trimsaran, Ysgol Pum Heol, Ysgol Yr Hendy, Ysgol Gwenllian. O bryd i'w gilydd daw disgyblion o rai ysgolion eraill tu allan i ddalgylch arferol yr ysgol.

**Disgyblion tu allan i ddalgylch y Strade**

Mae dalgylchoedd tair Ysgol Gyfun Cymraeg yn ffinio â dalgylch Ysgol y Strade – Ysgol Bro Myrddin, Ysgol Maes y Gwendraeth ac Ysgol Gwyr. Daw rhai disgyblion o'r ardaloedd hyn o bryd i'w gilydd yn dibynnu ar ba ysgolion Cynradd y mynychwyd ganddynt.

**Cyfarfodydd Teulu'r Strade**

Cynhelir cyfarfodydd Teulu'r Strade unwaith bob hanner tymor, sef Penaethiaid / athrawon Cynradd y dalgylch, Diprwy Bennaeth y Strade, cydgysylltydd pontio, cydgysylltydd CDP Strade ac arweinydd y Teulu ar ran y Sir. Ceir trafodaethau ar faterion cwricwlaidd, trefniadau asesu, gwybodaeth a deunyddiau pontio ynghŷd â thrafodaethau am gynlluniau datblygu blynyddol a chyllid.

Mae nifer o gysylltiadau Cwricwlaidd yn bodoli, gyda'r adrannau Craidd yn bennaf, â'r cynrychiolwyr pwnc o'r Ysgolion Cynradd yn dod at ei gilydd i drafod a chynllunio. Yn sgîl datblygiadau asesu ffurfiannol a proffiliau disgybl mae'r cyswllt hwn yn allweddol i lwyddiant y broses trosglwyddo.

Yn ddiweddar mae'r cyfarfodydd wedi esblygu i gynnwys arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd ysgolion y Teulu yn ogystal ag athrawon blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd.

**Trefniadau Pontio**

Mae'r Cyd-Gysylltydd Pontio yn gyfrifol am gyd-gysylltu a datblygu'r holl broses o bontio a throsglwyddo disgyblion Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd i Ysgol Strade.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- trefnu noson 'Y Strad ar waith' i ddarpar rieni a disgyblion Bl 5 a 6 cyn hanner tymor yr Hydref.
- ymweld â phob dosbarth Blwyddyn 6 yn ystod y flwyddyn i gynnal sesiynau torri'r iâ er mwyn dod i adnabod y plant.
- trefnu ymweliadau â Strade yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 gyda'r nod o roi blas ar naws yr ysgol a'r math o waith a wneir ynddi e.e Diwrnod Oh la la (miri Ieithioedd Tramor), her mini marathon, diwrnod o ddilyn gwersi ac ymweld fel ysgolion unigol.
- Trefnu Noson i Rieni a Disgyblion Newydd yn Ysgol Strade – cyfle i gyfarfod ag athro dosbarth a Phennaeth Blwyddyn 7 a derbyn pecyn gwybodaeth am ddisgwyliadau'r ysgol.
- Bydd y cyd-gysylltydd pontio a'r CADY yn trafod gydag Athrawon Blwyddyn 6 a chasglu data cyrhaeddiad a gwybodaeth am anghenion a chefndir y disgyblion gan gynnwys gwybodaeth am ddisgyblion abl a dawnus; casglu gwybodaeth am grwpiau o ffrindiau ac unrhyw faterion lles/ ymddygiadol y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth osod disgyblion mewn dosbarthiadau. Trosglwyddo'r data i'w osod mewn pecyn gwybodaeth gynhwysfawr i'w gyflwyno i staff Y Strade ar ddechrau Medi.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae rôl y Cyd-Gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) hefyd yn allweddol bwysig yn y broses o ddatblygu'r cyswllt a'r broses bontio. Trefnir i'r CADY:

- ymweld â phob ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn
- trafod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion gydag athrawon Blwyddyn 5/6 a CADY yr ysgolion cynradd.
- Casglu gwybodaeth ac adroddiadau swyddogol gan y Gwasanaeth Seicolegol ac asiantaethau eraill priodol.
- Ffurfio Cofrestr ADY Bl 7 ar sail y wybodaeth a gesglir a throsglwyddo'r wybodaeth i Benaethiaid Adran a staff Ysgol Y Strade. Mae'r gofrestr ADY yn cynnwys gwybodaeth am anghenion addysgiadol ychwanegol, anghenion emosiynol ac ymddygiadol arbennig ac anghenion disgyblion abl a dawnus.
- Llywio cyfarfodydd CADY yn dymhorol.

**Dogfennau Trosglwyddo**

Trosglwyddir ystod o ddogfennau perthnasol a data o'r ysgolion cynradd i Ysgol Strade (megis gwybodaeth academaidd; data profion darllen safonol a rhif; manylion cefndir a diddordebau/cryfderau ac ADY/ abl a dawnus)

**HMS**

Trefnir diwrnodau HMS ar y cyd gyda'r Ysgolion Cynradd yn achlysurol neu trefnir HMS ar yr un thema  yn unol a ffocws cynlluniau Teulu.

**Rhannu Adnoddau**

Mae gwahoddiad agored i'r Ysgolion Cynradd ddefnyddio adnoddau ac adeilad Ysgol Strade a gwneir hyn yn achlysurol.

| | |
|---|---|
| **Diweddarwyd:** | 20/10/25 (Adam Powell) |
| **Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:** | |
| **Llofnod y Cadeirydd:** | |

***Atodiad 1***

**Datganiad Cwricwlwn i Gymru**
**Ysgol y Strade**

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-gynllunio drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a bydd yn bodloni'r gofynion canlynol:

**Ein gweledigaeth**

'Cyfle i ragori trwy'r Gymraeg'

*Mae'r ysgol yn darparu, o fewn cymuned Gymraeg, hapus, a diogel, yr ystod ehangaf posibl o brofiadau addysgol, gan baratoi ein hieuenctid ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i gyflawni ei wir botensial yn academaidd, yn ymarferol ac yn gymdeithasol ac i arddangos parch a chwrteisi tuag at gyd-ddisgyblion ac oedolion.*

*Ein nod yw i ddatblygu dysgwyr iach, hyderus a rhai sy'n cymryd rhan ac yn cyfrannu at y byd eangach ac yn ymarfer gwerthoedd craidd yr ysgol.*
*Bydd ein dysgwyr yn magu hyder yn eu hunaniaeth wrth iddynt archwilio, arddangos, gwneud penderfyniadau a gwerthfawrogi sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu cefnogi i fod yn ddinasyddion creadigol, moesegol, galluog a gwybodus yn eu cymunedau.*

**Ein gwerthoedd**

- Cymru a Chymreictod
- Lles, Gofal a chefnogaeth
- Hapusrwydd a mwynhad
- Gwydnwch, hyder a chydweithio
- Cymuned a chynefin
- Creadigrwydd ac arloesedd

**Ein cwricwlwm cynhwysol**

Bwriad ein cwricwlwm yw i godi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi cynllunio yn ofalus sut i gefnogi pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben ac i gyrraedd eu potensial. Rydym eisoes wedi mabwysiadu'r Cod Newydd ADY ac yn cynllunio ein darpariaeth er mwyn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

**Y pedwar diben**

Mae'r pedwar diben yn ganolig i CiG a'r man cychwyn wrth i ni gynllunio ein cwricwlwm.
Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i fod yn :

- ✓ yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- ✓ yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ✓ dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- ✓ unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

**Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad;

1. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
2. Celfyddydau Mynegiannol
3. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
4. Dyniaethau
5. Mathemateg a Rhifedd
6. Iechyd a Lles

**Dysgu, Dilyniant ac Asesu**

*Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol.*
*Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgeg o'r safon uchaf, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar sicrhau bod dysgwyr yn dyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a'u priodoleddau sy'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd.*
*Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu yn cael ei wreiddio fel rhan gynhenid o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol.*

**Iaith yr ysgol**

- Ysgol Gymraeg yw'r Strade, a disgwylir i'r disgyblion ddefnyddio'r iaith Gymraeg bob cyfle posibl y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Mae'r ysgol yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn rhoi'r dewis i ddysgwyr / rhieni o flwyddyn 9 ymlaen i astudio Mathemaeteg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r ysgol yn addysgu Safon Uwch Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol megis llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd
- 

**CCUHP Hawliau Plant**

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP, ac o CCUHP, ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.

**CWRE Profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith**

Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)**

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

**CGM Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.
Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.
Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

**Adolygu a mireinio**

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.
**Pennaeth:** Mr Geoff Evans
**Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** Mr Gareth Beynon Thomas
**Dyddiad adolygu:** Gorffennaf 2026

# Y STRADE ACCESS AND TRANSITION POLICY

**Introduction**

Our main aim is to ensure that Year 6 pupils transfer from primary school to Ysgol Y Strade happily and successfully, settling smoothly into Year 7 from the outset so that they can fully engage with the educational and social experiences offered to them. The purpose of the transition policy is to outline the principles and arrangements planned and implemented jointly with the primary schools to achieve this goal effectively. This means we plan to ensure continuity and progression in terms of curriculum, skills, and standards, as well as in the pastoral care provided to the pupils.

**Objectives**

- Get to know the Year 6 pupils well before they arrive at Ysgol Y Strade.
- Provide opportunities for pupils and their parents to get to know the secondary school and become familiar with its policies.
- Aim to ensure mutual understanding regarding the expectations and standards of the secondary school and the home-school partnership the secondary school wishes to establish with parents for the benefit of each pupil's progress and success.
- Provide opportunities for pupils and their parents to meet the class teacher, Head of Year, and other relevant staff before the pupil starts at Ysgol Y Strade.
- Explain the importance of the Contact Book as a link between the school and parents and refer to the Home-School Agreement.
- Ensure close links between primary school teachers and Ysgol Y Strade teachers.
- Identify any special educational needs pupils may have, as well as gifted and talented pupils, to ensure appropriate provision is prepared for them at Ysgol Y Strade, in accordance with the requirements of the Additional Learning Needs Code for Wales 2021.
- Identify any behavioural/emotional issues pupils may have.

**Primary/Secondary Link**

There is a very close relationship between Ysgol Y Strade and the family of feeder primary schools: Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Ysgol Iau Llangennech, Ysgol Ffwrnes, Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Ysgol Y Felin, Ysgol Trimsaran, Ysgol Pum Heol, Ysgol Yr Hendy, Ysgol Gwenllian. Occasionally, pupils come from other schools outside the usual catchment area.

**Pupils Outside the Strade Catchment**

The catchment areas of three Welsh-medium secondary schools' border Ysgol Y Strade's catchment – Ysgol Bro Myrddin, Ysgol Maes y Gwendraeth, and Ysgol Gwyr. Some pupils from these areas attend Ysgol Y Strade depending on which primary schools they attended.

## Strade Family Meetings

Strade Family meetings are held once every half term, involving the heads/teachers of the catchment primary schools, the Deputy Head of Strade, the transition coordinator, and the cluster leader representing the county. Discussions cover curriculum matters, assessment arrangements, transition information and materials, as well as annual development plans and funding.
There are many curriculum links, mainly with the Core departments, where subject representatives from the primary schools come together to discuss and plan. As a result of developments in formative assessment and pupil profiles, this link is key to the success of the transition process.
Recently, meetings have evolved to include Literacy and Numeracy leaders from the family schools as well as Year 6 teachers from the primary schools.

## Transition Arrangements

The Transition Coordinator is responsible for coordinating and developing the entire process of transitioning and transferring Year 6 pupils from primary schools to Ysgol Strade.

These arrangements include the following activities:

- Organising a 'Y Strade ar waith' evening for prospective parents and Year 5 and 6 pupils before the Autumn half-term.
- Visiting every Year 6 class during the year to conduct icebreaker sessions to get to know the children.
- Arranging visits to Strade during the year for Year 6 pupils to give them a taste of the school's atmosphere and the type of work done there, e.g., Oh la la Day (Foreign Language fun), mini marathon challenge, a day of following lessons, and visits as individual schools.
- Organising a New Parents and Pupils Evening at Ysgol Strade – an opportunity to meet the class teacher and Head of Year 7 and receive an information pack about the school's expectations.
- The transition coordinator and the ALNCo (Additional Learning Needs Coordinator) will discuss with Year 6 teachers and collect attainment data and information about pupils' needs and backgrounds, including information about able and talented pupils; gather information about friendship groups and any wellbeing/behavioural issues that should be considered when placing pupils in classes. This data will be compiled into a comprehensive information pack to be presented to Y Strade staff at the start of September.

## Additional Learning Needs

The role of the Additional Learning Needs Coordinator (ALNCo) is also crucial in developing the connection and transition process. The ALNCo will:

- Visit every primary school during the year.
- Discuss pupils' additional learning needs with Year 5/6 teachers and the primary schools' ALNCos.
- Collect information and official reports from the Psychological Service and other appropriate agencies.
- Create a Year 7 ALN Register based on the gathered information and transfer it to Heads of Department and staff at Ysgol Y Strade. The ALN Register includes information on additional educational needs, special emotional and behavioral needs, and needs of able and talented pupils.
- Lead ALNCo meetings each term.

## Transfer Documents

A range of relevant documents and data are transferred from the primary schools to Ysgol Strade (such as academic information; standardised reading and numeracy test data; background details and interests/strengths and ALN/able and talented).

## INSET

Joint INSET days are occasionally arranged with the Primary Schools or INSET is arranged on the same theme in line with the focus of Family plans.

**Sharing Resources**

An open invitation is extended to Primary Schools to use the resources and facilities of Ysgol Strade, and this is done occasionally.

| | |
|---|---|
| **Revised:** | 20/10/25 (Adam Powell) |
| **Accepted by the governing body:** | |
| **Chair of Governors signature:** | |

*Appendix 1*

# Curriculum for Wales Statement
# Ysgol y Strade

Our curriculum has been co-designed through engagement with all stakeholders and will meet the following requirements:

## Our Vision

**"Opportunity to excel through the medium of Welsh"**

The school provides, within a happy and safe Welsh-speaking community, the broadest possible range of educational experiences, preparing our young people for the future. This enables every pupil to achieve their true potential academically, practically, and socially, and to show respect and courtesy towards peers and adults.
Our aim is to develop healthy, confident learners who participate in and contribute to the wider world and embody the school's core values.
Our learners will gain confidence in their identity as they explore, express, make decisions, and value the skills and knowledge that will support them to become creative, ethical, capable, and informed citizens in their communities.

## Our Values

- Wales and Welsh identity
- Wellbeing, care, and support
- Happiness and enjoyment
- Resilience, confidence, and collaboration
- Community and sense of place
- Creativity and innovation

## Our Inclusive Curriculum

Our curriculum aims to raise the aspirations of every learner. As a school, we have carefully planned how to support all learners to realise the four purposes and reach their potential. We have already adopted the new ALN (Additional Learning Needs) Code and are planning our provision to meet the needs of different learner groups.

## The Four Purposes

The four purposes are central to the Curriculum for Wales and are the starting point for our curriculum planning. Our school aims to support learners to become:

- ✓ ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- ✓ enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ✓ ethical, informed citizens of Wales and the world
- ✓ healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

## Statements of What Matters

Our curriculum will provide opportunities and experiences to develop key concepts, knowledge, and skills as described in the Statements of What Matters and in line with the Code.

## Areas of Learning and Experience (AoLEs)

Our curriculum will provide learning experiences through the six AoLEs:

1. Languages, Literacy and Communication
2. Expressive Arts
3. Science and Technology
4. Humanities
5. Mathematics and Numeracy
6. Health and Wellbeing

**Learning, Progression, and Assessment**

Our curriculum supports learning by designing opportunities that draw on pedagogical principles.
Supported by high-quality teaching, our curriculum enables learners to make meaningful progress. Over time, learners will develop and improve their skills and knowledge. The curriculum focuses on deepening and broadening learners' knowledge, understanding, skills, and attributes, guided by the Progression Code.
This, in turn, supports our approach to assessment, which aims to inform future learning planning. Assessment will be embedded as an integral part of teaching and learning. Every learner will be assessed upon entry to the school.

**Language of the School**

- Ysgol y Strade is a Welsh-medium school, and pupils are expected to use Welsh at every possible opportunity inside and outside the classroom.
- The school delivers Welsh-medium education using Welsh to present the curriculum. From Year 9 onwards, learners/parents are given the option to study Mathematics and Science through the medium of English. A-level Mathematics and Science are taught through English.

**Cross-Curricular Skills**

Our curriculum will develop the mandatory cross-curricular skills of literacy, numeracy, and digital competence. It will enable learners to develop proficiency and capability in these skills and apply them across all Areas. Learners will have opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking, and writing skills
- use numbers and solve problems in real-life situations
- be confident users of a range of technologies to operate and communicate effectively and make sense of the world

**UNCRC – Children's Rights**

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC and the Convention itself among those delivering teaching and learning.

**Careers and Work-Related Experiences (CWRE)**

Our curriculum will incorporate careers and work-related experiences for all learners.

**Relationships and Sexuality Education (RSE)**

Our school curriculum embraces the guidance in the RSE Code. Our RSE provision will play a positive and empowering role in learners' education and will be essential in supporting them to realise the four purposes as part of a whole-school approach.
The foundation of RSE is to help learners form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect. These relationships are essential for emotional wellbeing, resilience, and empathy.

**Religion, Values and Ethics (RVE)**

RVE is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is compulsory for all learners aged 3 to 16.
Parents do not have the right to withdraw their child from RVE lessons in the Curriculum for Wales.
As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus outlines what should be taught within the local authority, and our curriculum will reflect this guidance.

**Review and Refinement**

Our school curriculum will be continuously reviewed to respond to professional inquiry, changing learner needs, and social contexts. Reviews will consider stakeholder views and be approved by the Governing Body.
We will publish a summary of our curriculum and review it if changes are made during the review process.

**Headteacher:** Mr Geoff Evans
**Chair of Governors:** Mr Gareth Beynon Thomas
**Review Date:** July 2026